O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 589 (Cy. 167)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A458, yr A483, yr A489, yr A470, yr A44 a'r A487 (Man i'r Dwyrain o Dreberfedd, Powys i Aberteifi, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

Gwnaed *21 Ebrill 2016*

Yn dod i rym *27 Ebrill 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Amwythig – Dolgellau (yr A458), Cefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483), Cefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (yr A489, yr A470 a'r A44) a Chefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd sy'n deillio o gludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Ebrill 2016. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A458, yr A483, yr A489, yr A470, yr A44 a'r A487 (Man i'r Dwyrain o Dreberfedd, Powys i Aberteifi, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith o gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y cludo" ("*transportation period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 27

Ebrill 2016 ac sy'n dod i ben pan fydd y gwaith o symud y llwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads*") yw'r darnau o brif gerbytffyrdd a chylchfannau Cefnffyrdd yr A458, yr A483, yr A489, yr A470, yr A44 a'r A487 yn Siroedd Powys a Cheredigion a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a ddisgrifir yn yr Atodlen.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Ebrill 2016

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.
(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

CEFNFFORDD YR A458

Y darn o gefnffordd yr A458 sy'n ymestyn o'i ffin â ffin Cymru/Lloegr, i'r dwyrain o Dreberfedd i gyfeiriad y gorllewin hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A483 yn y Trallwng, Powys.

CEFNFFORDD YR A483

Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A458 ger y Trallwng i gyfeiriad y de-orllewin hyd at ei chyffordd â'r A489, Ffordd Llanidloes, y Drenewydd, Powys gan gynnwys prif gerbytffyrdd cylchredol Cylchfannau Marchnad Da Byw y Trallwng, yr Orsaf Drenau a Choed-y-dinas.

CEFNFFORDD YR A489

Y darn o gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A483, Ffordd Llanidloes, y Drenewydd i gyfeiriad y gorllewin hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A470, i'r de o Gaersŵs, Powys gan gynnwys prif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Llanidloes.

CEFNFFORDD YR A470

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A489 i'r de o Gaersŵs i gyfeiriad y de-orllewin hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A44 yn Llangurig, Powys gan gynnwys prif gerbytffyrdd cylchredol Cylchfannau Llanidloes a Llangurig.

CEFNFFORDD YR A44

Y darn o gefnffordd yr A44 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A470 yn Llangurig, Powys i gyfeiriad y gorllewin hyd at ei chyffordd â'r A487 yn Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion gan gynnwys prif gerbytffyrdd cylchredol Cylchfan Gelli Angharad a Mân Gylchfannau Sgwâr Llanbadarn.

CEFNFFORDD YR A487

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â'r A44 yn Llanbadarn Fawr, Aberystwyth i gyfeiriad y de hyd at ei chyffordd yn Aberteifi, Ceredigion gan gynnwys prif gerbytffyrdd cylchredol Cylchfannau Ffordd Penparcau (Aberystwyth) a Ridgeway/Pontycleifion (Aberteifi).